O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2013 Rhif 654 (Cy. 74)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Morben Isaf, Derwenlas, Machynlleth, Powys) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2013

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *14 Mawrth 2013* |
| *Yn dod i rym* | *14 Mawrth 2013* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Abergwaun i Fangor (yr A487) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a'i wahardd ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 14 Mawrth 2013. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A487 (Morben Isaf, Derwenlas, Machynlleth, Powys) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2013.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd a ddefnyddir ar gyfer y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at wneud y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" (*"works period"*) yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 08.00 o'r gloch ar 14 Mawrth 2013 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;